

Annwyl Syr / Fadam,

Atodir agenda a dogfennau eraill ar gyfer cyfarfod o'r **CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**.

Yr eiddoch yn gywir,

Gary Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

Dear Sir / Madam,

An agenda and other documents for a meeting of the **NORTH WALES RESIDUAL WASTE JOINT COMMITTEE** are attached.

Yours faithfully,

Gary Williams
Head of Legal and Democratic Services

AGENDA

1 PECYN AGENDA

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Pecyn Dogfen Preifat Eitem Agenda 1



Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Y Cyngorwyr:

Nicola Gittins 01352 702345
nicola.gittins@flintshire.gov.uk

Carolyn Thomas, Richard Dew, Brian Jones, Dafydd Meurig, Don Milne, Bob Parry, Sam Rowlands, Aaron Shotton, Julian Thompson-Hill a Gareth Wyn Griffith

Annwyl Syr / Fadam

Cynhelir Cyfarfod **CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLOL GOGLEDD CYMRU** yn **OPTIC GLYNDWR, LLANELWY** am **3.00 P.M. AR DYDD MAWRTH 26ED MAWRTH 2019** I drafod y materion canlynol:

A G E N D A

1 **YMDDIHEURIADAU**

Purpose: **Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau

2 **DATGAN CYSYLLTIAD**

Purpose: **Pwrpas:** I dderbyn unrhyw Ddatganiadau a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

3 **CYMERADWYO COFNODION BLAENOROL** (Tudalennau 5 - 12)

Purpose: **Pwrpas:** Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir.

4 **MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL**

Purpose: **Pwrpas:** Ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol

5 **DIWEDDARIAD ADEILADU (AR LAFAR) A RÔL YR ARDYSTIWR ANNIBYNNOL** (Tudalennau 13 - 16)

Purpose: **Purpose:** Diweddaraid ar gynnydd ac amserlen adeiladu

County Hall, Mold. CH7 6NA
Tel. 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NR
Ffôn 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.siryfflint.gov.uk

The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cyngor yn croesawau gohebiaeth yn y Cymraeg neu'r Saesneg
Tudalen 3



Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Ystyrir bod yr eitemau canlynol wedi'u heithrio yn rhinwedd Paragraff (au) 14 Rhan 4 0 12A Rhestredig Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'r diwygiwyd)

Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion yn ymwneud â materion ariannol y 5 cyngor. Mae'r manylion hynny yn fasnachol sensitif ac mae diddordeb y cyhoedd o ran gwarchod y sefyllfa fasnachol honno yn gorbwyso budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth yn ystod oes y contract

6 DIWEDDARIAD CYNLLUNIO ADNODDAU A CHOMISIYNU (Tudalennau 17 - 30)

Purpose: **Purpose:** Diweddarau'r Aelodau ar gynnydd y paratodau ar gyfer comisiynu a gwastraff sy'n mynd i mewn i Parc Adfer.

Ystyrir bod yr eitemau canlynol wedi'u heithrio yn rhinwedd Paragraff (au) 14 Rhan 4 0 12A Rhestredig Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'r diwygiwyd)

Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion yn ymwneud â materion ariannol y 5 cyngor. Mae'r manylion hynny yn fasnachol sensitif ac mae diddordeb y cyhoedd o ran gwarchod y sefyllfa fasnachol honno yn gorbwyso budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth yn ystod oes y contract

County Hall, Mold. CH7 6NA
Tel. 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NR
Ffôn 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.siryfflint.gov.uk

7 ADRODDIAD GWASANAETHAU CLUDIANT A GORSAFOEDD TROSLWYDDO GWASTRAFF (Tudalennau 31 - 40)

Purpose: **Purpose:** Diweddarau'r Aelodau ar gynnydd y fanyleb a phroses dendro Contract Cludiant.

Ystyrir bod yr eitemau canlynol wedi'u heithrio yn rhinwedd Paragraff (au) 14 Rhan 4 0 12A Rhestredig Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'r diwygiwyd)

Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion yn ymwneud â materion ariannol y 5 cyngor. Mae'r manylion hynny yn fasnachol sensitif ac mae diddordeb y cyhoedd o ran gwarchod y sefyllfa fasnachol honno yn gorbwyso budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth yn ystod oes y contract

8 MONITRO ANSAWDD AER (PM2.5) (Tudalennau 41 - 48)

Purpose: **Purpose:** I hysbysu Aelodu o chostau monitro ychwanegol o allyriadau 'PM2.5' o Parc Adfer, ac i amlinellu newidiadau i gyfundrefn trwydded amgylcheddol a rheolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ystyrir bod yr eitemau canlynol wedi'u heithrio yn rhinwedd Paragraff (au) 14 Rhan 4 0 12A Rhestredig Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'r diwygiwyd)

Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion yn ymwneud â materion ariannol y 5 cyngor. Mae'r manylion hynny yn fasnachol sensitif ac mae diddordeb y cyhoedd o ran gwarchod y sefyllfa fasnachol honno yn gorbwyso budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth yn ystod oes y contract



Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

9 ARIAN LLYWODRAETH CYMRU

Purpose: **Purpose:** Diweddaru'r Aelodau ynglyn â chyfraniad ffioedd giât Llywodraeth Cymru i'r Bartneriaeth.

10 UNRHYW FATER ARALL

Yours sincerely

Robert Robins
Democratic Services Manager

County Hall, Mold. CH7 6NA
Tel. 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NR
Ffôn 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.siryfflint.gov.uk

The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cynghor yn croesawau gohebiaeth yn y Cymraeg neu'r Saesneg

Tudalen 6

Eitem ar gyfer y Rhaglen 3



NWRWTP
North Wales Residual Waste Treatment Project

CYD BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD **CYMRU**

Dydd Mercher 31ain Hydref 2018 am 10.00am
Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno

YN BRESENNOL

Cynghorydd Julian Thompson-Hill
Cynghorydd Brian Jones
Cynghorydd Don Milne
Cynghorydd Aaron Shotton
Cynghorydd Gareth Wyn Griffith

Cyngor Sir Dinbych
Cyngor Sir Dinbych
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Fflint
Cyngor Gwynedd

HEFYD YN BRESENNOL:

Cyngor Sir Fflint

Colin Everett (Prif Weithredwr Arweiniol), Lisa Brownbill (Pennaeth Archwilio Mewnol) a Gareth Owens (Prif Swyddog – Llywodraethu)

Cyngor Sir Dinbych

Tara Dumas (Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Andrew Wilkinson (Pennaeth Gwasanaethau Bro)

Cyngor Gwynedd

Medwyn Williams (Uwch Reolwr – Trin Gwastraff)

Cyngor Ynys Mô

Meirion Edwards (Prif Swyddog Rheoli Gwastraff)

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Steffan Owen (Rheolwr Contract Rhanbarthol)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Carolyn Thomas (Cyngor Sir Fflint), Cynghorydd Dafydd Meurig (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd Bob Parry (Cyngor Ynys Môn), Cynghorydd Richard Dew (Cyngor Ynys Môn), Tony Ward (Cyngor Sir Dinbych), Gary Ferguson (Cyngor Sir Fflint).

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni wnaed unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.



3. CYMERADWYO COFNODION BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o Gyd Bwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 21ain Mehefin 2018 i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor.

Nodwyd nad oedd y cofnodion yn cofnodi bod y Cynghorydd Brian Jones (Cyngor Sir Dinbych) wedi cymryd y gadair oherwydd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Carolyn Thomas (Cyngor Sir Fflint) (Cadeirydd) a'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill (Cyngor Sir Dinbych) (Is Gadeirydd).

PENDERFYNWYD:

- (a) *Derbyn cofnodion y cyfarfod o Gyd Bwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 21ain Mehefin 2018 fel rhai cywir.*

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION BLAENOROL

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5. DIWEDDARIAD AR ADEILADU A RÔL ARDYSTIO ANNIBYNNOL

Cyflwynodd Steffan Owen adroddiad sef Diweddariad Adeiladu, ac hefyd dangosodd i Aelodau'r Cyd Bwyllgor gyflwyniad a roddwyd gan WTI i gyfarfod diweddar o Grŵp Cydlynu Cymunedol Parc Adfer.

Nodwyd gan y Cynghorydd Brian Jones nad oedd yn credu mai cwmni lleol oedd yn berchen y sgaffaldiau ar y safle.

Atebodd Steffan Owen ei fod ef ar ddeall bod nifer o is-gontractwyr sgaffaldio ar y safle, fodd bynnag byddai yn gwneud ymholiadau ynghylch pwy oeddynt.

Holodd y Cynghorydd Gareth Wyn Griffith os byddai ymweliad safle yn bosibl.

Atebodd Colin Everett y gellid trefnu hyn gyda WTI, a'r dyddiad o bosibl yn cydfynd â dyddiad y Cyd Bwyllgor nesaf ym mis Ionawr 2019.

Cododd Aaron Shotton gwestiwn ynghylch monitro deunydd gronynnol mân (PM2.5) a sut / ym mha fodd y gwneir hyn. Atebodd Steffan Owen ei fod wedi gofyn i WTI am eglurhâd byr o'r math o fonitro sydd yn digwydd o dan ganiatâd amgylcheddol WTI (caniatâd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gyflwyno ac yn ei fonitro), a pha opsiynau sydd ar gael o safbwynt monitro PM2.5's sydd uwchlaw telerau'r caniatâd, a'r costau ynghlwm wrth yr opsiynau hynny. Nodwyd y byddai adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno i'r Cyd Bwyllgor maes o law.



Holodd y Cynghorydd Aaron Shotton ynghylch cronfa mantais gymunedol WTI ei hun (£50k dros y cyfnod adeiladu) a'r modd y mae'r arian yn cael ei ddyrannu. Nodwyd gan Steffan Owen mai cronfa WTI ei hun oedd hon ac mai WTI fyddai yn penderfynu pa brosiectau y byddent yn eu cefnogi. Ychwanegodd, fodd bynnag, bod WTI wedi bod yn gweithio gyda'r Awdurdod er mwyn sefydlu meini prawf ac amodau cymhwysedd ar gyfer y gronfa er mwyn sicrhau ei bod yn ymateb i'r amcanion a'r cynlluniau ar gyfer y brif Gronfa Mantais Gymunedol. Holodd y Cynghorydd Aaron Shotton ynghylch y brif Gronfa Mantais Gymunedol a'r modd y byddai yn cael ei rheoli. Atebodd Colin Everett mai'r Awdurdod fyddai yn rheoli'r gronfa hon.

PENDERFYNWYD:

- (a) *Nodi'r adroddiad,*
- (b) *Bod Steffan Owen yn dychwelyd gyda gwybodaeth ynghylch y contract sgaffaldio, a*
- (c) *Bod ymweliad safle yn cael ei threfnu ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyd Bwyllgor.*

6. **DIWEDDARIAD AR GYNLLUNIO ADNODDAU A CHOMISIYNU**

Cyflwynodd Steffan Owen yr adroddiad a gyhoeddwyd, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr hyfforddiant rheoli contract a ddarparwyd gan y Partneriaethau Lleol ar ran Llywodraeth Cymru a'r hyfforddiant cyllid a ddarparwyd gan ymgynghorwyr ariannol y bartneriaeth. Aeth ymlaen i amlinellu'r gwaith oedd yn mynd ymlaen o fewn Sir y Fflint fel yr awdurdod arweiniol, sef paratoi ar gyfer Comisiynu pan fyddai gwastraff awdurdodau sy'n bartneriaid yn mynd i Barc Adfer, gan gynnwys y broses o sicrhau adnoddau a gweinyddu llif tâl.

Gofynnodd y Cynghorydd Brian Jones os gallai'r Cyd Bwyllgor gael golwg ar fanylion y llif tâl rhwng WTI a'r Bartneriaeth a rhwng yr awdurdodau sy'n bartneriaid.

Cytunai Colin Everett y byddai hyn yn syniad da ac amlinellodd yn fyr y broses sef y byddai WTI yn anfonebu Sir y Fflint fel yr awdurdod arweiniol dros yr holl bartneriaeth, ac yna byddai Sir y Fflint yn ei thro yn dynodi costau pob awdurdod sy'n bartneriaid yn unol â'r cytundeb rhwng yr awdurdodau.

PENDERFYNWYD:

- (a) *Nodi'r adroddiad, a*
- (b) *Bod adroddiad i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyd Bwyllgor ar lif tâl y contract.*

7. **EITEMAU WEDI EU HEITHRIO: DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, (ADRAN 100A AC ATODLEN 12A (MYNEDIAD AT WYBODAETH))**

PENDERFYNWYD: gwahardd y Cyhoedd a'r Wasg o'r cyfarfod o dan ddarpariaeth Adran 100A o'r Deddf uchodder mwyn cynnal trafodaeth ar yr



eitemau canlynol gan y gallant arwain at ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Ran 4 Atodlen 12A y Ddeddf, ac o safbwynt buddiant y cyhoedd yn yr holl amgylchiadau perthnasol bod cynnal yr eithriad yn gorbwysu datgelu'r wybodaeth.

CAMAU YN DILYN PRESENOLDEB YR UNDEBAU LLAFUR YNG NGHYFARFOD Y CYD BWYLLGOR FIS MEHEFIN 2018

Cafwyd crynodeb gan Colin Everett o'r camau a gymerwyd yn dilyn materion a godwyd gan yr Undebau Llafur yn y Cyd Bwyllgor ym mis Mehefin, sef:-

- 1. Bod mwy o fanylion a sicrwydd ar gael ar faterion agored, gan gynnwys ffeiriau swyddi (CNIM);*
- 2. Bod adolygiad o'r perfformiad o safbwynt darpariaethau budd i'r gymuned Llywodraeth Cymru o fewn y contract yn cael ei gwblhau (Steffan Owen, Hywel Jones a WTI);*
- 3. Bod trefniadau ar gyfer ymweliadau safle yn cael eu hadolygu a bod ymweliadau pellach yn cael eu cynnig (CNIM);*
- 4. Bod enghreifftiau o gyfraddau tâl dienw ar gael (CNIM); a*
- 5. Bod datganiadau ar (1) ymarfer cymharol gan WTI/CNIM gyda darpariaethau NAECI a (2) y cyfleoedd a'r risgiau ynghlwm wrth symud tuag at / fabwysiadu NAECI gyda - neu heb - gytundeb y Bartneriaeth fel bo angen (WTI)*

Nodwyd gan Colin Everett bod gwaith ffurfiol yr Undebau Llafur bellach wedi dod i ben. Nodwyd hefyd ganddo bod yr Undebau Llafur wedi cyfarfod y Prif Weinidog yn y Cynulliad ac y byddai ef a Steffan Owen yn cymryd camau pellach yn sgil y cyfarfod hwnnw gyda Llywodraeth Cymru.

Dywedodd Colin Everett bod CNIM, o safbwynt eitem 4, yn amharod i ddatgelu cyfraddau tâl yn ysgrifenedig, ond eu bod yn fodlon eu datgelu yn bersonol i'r Bartneriaeth. Oherwydd hynny, roedd Colin Everett a Steffan Owen wedi cyfarfod gyda chynrychiolydd CNIM (Becky Bell) i gael gweld cyfraddau tâl ar gyfer 6 prif waith ar y safle, gyda 3 lefel tâl ar gyfer pob gwaith a gofnodwyd – sef cyfradd llafurwyr, cyfradd llafurwyr gyda sgiliau a chyfradd arolygwyr. Dangoswyd y cyfraddau hyn ochr yn ochr â chyfraddau'r "llyfr glas".

Cafwyd atborth gan Colin Everett ar y cyfraddau tâl a ddangoswyd. Yn gyntaf yr oedd y cyfraddau tâl yn cymharu'n ffafriol iawn gyda chyfraddau'r "llyfr glas", gyda 2 ohonynt heb fod yn berthnasol yn achos llafur, a'r 4 arall yn cychwyn yn gymharol uwch na'r Cyflog Byw cenedlaethol. Ar gyfer crefftwyr / llafurwyr gyda sgiliau, yr atborth oedd bod y cyfraddau ar y cyfan yn debyg i gyfraddau'r "llyfr glas" er nad oedd pob gweithwyr yn cychwyn ar lefelau uwch na'r "llyfr glas". Tueddai'r cyfraddau ar gyfer arolygwyr i fod ychydig yn is na chyfraddau'r "llyfr glas".



Roedd Colin Everett a Steffan Owen wedi derbyn sicrwydd bod y cyfraddau a ddangoswyd yn llwyr gynrychioli'r graddfeydd tâl o fewn y diwydiant adeiladu peirianyddol.

Nodwyd gan Colin Everett y dylai'r ymatebion i ymholiadau'r Undeb gael eu datgelu i'r undebau llafur ac i staff Llywodraeth Cymru.

Nodwyd ganddo hefyd bod yr Undebau wedi nodi cyhuddiadau o "gosbrestru" yn y Cyd Bwyllgor diwethaf. Fodd bynnag, gan fod yr Undebau wedi cysylltu â'r Bartneriaeth neu WTI neu CNIM gyda thystiolaeth o weithgaredd o'r fath, nid oedd y Bartneriaeth wedi gallu cymryd unrhyw gamau pellach ynghylch y mater.

Cododd y Cynghorydd Aaron Shotton gwestiwn ynghylch cyfraddau llafur sylfaenol ac os yw'r rhai hyn yn y "llyfr glas". Atebodd Colin Everett nad ydynt.

Mynegodd y Cynghorydd Aaron Shotton hefyd bryder bod cyfraddau lletya yn ymddangos y isel.

Dywedodd Colin Everett y byddai'r mater yn derbyn sylw.

PENDERFYNWYD:

- (a) *Nodi'r adroddiad.*
- (b) *Rhannu'r ymatebion ysgrifenedig gyda'r Undebau Llafur a Llywodraeth Cymru*
- (c) *Cymryd camau yn dilyn pryderon ynghylch graddfeydd lletya gyda CNIM*

8. ADRODDIAD AR Y GWASANAETH CLUDO A'R CANOLFANNAU TROSGLWYDDO GWASTRAFF

Cyflwynodd Steffan Owen adroddiad i'r Cyd Bwyllgor yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd gyda'r canolfannau trosglwyddo gwastraff yn siroedd Conwy a Dinbych. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys diweddariad ar y modd y mae contract cludo'r bartneriaeth yn datblygu.

Nodwyd gan Colin Everett bod cais yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o achos ehangach am arian cyfalaf seilwaith gwastraff er mwyn cynyddu lefelau ailgylchu yn siroedd Conwy a Dinbych.

Ychwanegodd Tara Dumas bod Sir Ddinbych yn parhau i ystyried opsiynau o safbwynt y drefn fwyaf effeithlon, economaidd a hawdd ei gweithredu, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Gwnaed sylw gan Colin Everett ynghylch amseru'r cais i Lywodraeth Cymru o ystyried bod cynnydd gyda'r gwaith wedi bod yn arafach na'r disgwyl. Ychwanegodd nad oedd yn nodi hyn fel beirniadaeth, ond ei bod yn bwysig pwysleisio y byddai'n dod yn fwyfwy anodd dwyn ymlaen yr arian cyfalaf y mae'r awdurdodau sy'n bartneriaid wedi ei ddrynnu ar gyfer y gwaith.



Dywedodd Andrew Wilkinson ei fod yn cytuno gyda Colin Everett ei bod yn dod yn gynyddol anodd dwyn arian cyfalaf ymlaen fel mae amser yn mynd heibio.

Cyflwynodd Meirion Edwards ddiweddariad i'r Cyd Bwyllgor ynghylch cynnydd Ynys Môn gyda'u trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwastraff. Nodwyd ganddo eu bod yn awr yn trafod ai mynd allan i dendr neu beidio, ynte ystyried ail agor safle Penhesgyn.

Hysbysodd Meirion Edwards a Medwyn Williams y Pwyllgor bod Gwynedd a Môn ar y funud yn trafod y posibilrwydd y gallai Gwynedd ddefnyddio Penhesgyn fel gorsaf drosglwyddo gwastraff ar gyfer rhan ogleddol y sir.

Cyflwynodd Steffan Owen ddiweddariad i'r pwyllgor ar y cynnydd.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad

9. **ARIAN LLYWODRAETH CYMRU**

Aeth Colin Everett drwy'r adroddiad ar Arian Llywodraeth Cymru, gan bwysleisio pwysigrwydd y mater hwn gan y byddai'r arian grant yn swm sylweddol gydol y cyfnod comisiynu.

Hysbysodd Colin Everett y grŵp ei fod wedi cysylltu gyda Llywodraeth Cymru ac yn deall nad oeddent yn fodlon newid amodau'r grant a chaniatau i'r taliadau gychwyn ar ddechrau'r comisiynu, fodd bynnag fe fyddent yn rhoi ystyriaeth bellach i gais y Bartneriaeth. Dywedodd ei fod yn disgwyl ymateb ganddynt erbyn diwedd Tachwedd 2018, fel arall byddai'r mater yn mynd i sylw Ysgrifennydd Cyllid y Cabinet.

Dywedodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill ei fod yn cytuno gyda'r camau hyn.

PENDERFYNWYD:

(a) *Nodi cynnwys yr adroddiad; a*

(b) *Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cais i Lywodraeth Cymru a amlinellir yn yr adroddiad.*

10. **UNRHYW FATER ARALL**

Hysbysodd Steffan Owen y grŵp mai'r bwriad yw cyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Cyd Bwyllgor yn amlinellu beth sy'n ofynnol i WTI ei wneud o dan eu Caniatâd Amgylcheddol (gaiff ei gyhoeddi a'i fonitro gan Gyfoeth Naturiol Cymru), y dewisiadau sydd ar gael i'r Bartneriaeth o safbwynt profi gronynnau "uwchlaw a thu hwnt" y drefn reoleiddio safonol a chostau pob opsiwn.



Cytunwyd y byddai cyfarfod nesaf y Cyd Bwyllgor yn cynnwys ymweliad safle i'r Parc Adfer os yn bosibl. Steffan Owen i drefnu.

Hysbysodd y Cynghorydd Gareth Wyn Griffith y pwyllgor y byddai Medwyn Williams yn gadael Cyngor Gwynedd ddiwedd mis Tachwedd, ac yr hoffai ddiolch i Medwyn am ei wasanaeth i Gyngor Gwynedd a'r prosiect hwn a dymuno'r gorau iddo yn y dyfodol.

Ymunodd y Pwyllgor gyda'r Cynghorydd Wyn Griffith i ddiolch a dymuno'r gorau i Medwyn Williams yn y dyfodol.

Nodwyd gan Colin Everett ei fod ef yn teimlo y dylai'r Cyd Bwyllgor gyfarfod yn chwarterol am gyfnod o amser wrth i gomisiynu agosau, gellid newid y trefniant hwn eto yn y dyfodol.

Cadarnhawyd dyddiad y cyfarfod nesaf fel 17 Ionawr 2019 (lleoliad i'w gadarnhau)

(Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 pm)

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol



Eitem ar gyfer y Rhaglen 5

NWRWTP

North Wales Residual Waste Treatment Project

EITEM AGENDA RHIF: 5

ADRODDIAD I: CYD-BWYLLGOR NWRWTP

DYDDIAD: 26ain MAWRTH 2019

ADRODDIAD GAN: RHEOLWR CONTRACT

TESTUN: ADRODDIAD CYNNYDD ADEILADU

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. I ddiweddarau'r Cydbwyllgor ar gynnydd ar adeiladu'r cyfleuster Parc Adfer.

2. CEFNDIR

2.1. Cyrhaeddwyd y Cau Ariannol ar gaffael NWRWTP yng nghanol mis Rhagfyr 2016 a dyfarnwyd y contract yn ffurfiol i Wheelabrator Technologies Inc (WTI).

2.2. CNIM yw'r contractwr Caffael ac Adeiladu Peirianeg (EPC), a Clugston yw ei is-contractwr Peirianeg Sifil. Mae CNIM a Clugston yn gontractwyr profiadol iawn yn y farchnad Troi Gwastraff yn Ynni (EfW). Ar ben hynny, mae ganddynt berthynas sefydledig, a'r Parc Adfer yw eu 10^{fed} prosiect adeiladu EfW gyda'i gilydd.

2.3. Ceir Gweithdrefn Cydgysylltu ar gyfer adrodd am gynnydd yr adeiladwaith yn erbyn yr amserlen yn y Cytundeb Prosiect (PA). Er mwyn cydymffurfio â gofynion PA, cyflwynir Adroddiad Cynnydd Misol ffurfiol i'r awdurdod gan WTI. Cynhelir cyfarfodydd misol (Bwrdd Rheoli Contractau) gyda WTI a'u contractwyr i adrodd yn ffurfiol ar gynnydd, materion ar y safle ac unrhyw risgiau hysbys posibl i'r rhaglen.

2.4. Cynrychiolir NWRWTP ar y Bwrdd Rheoli Contractau (CMB) a bydd yr holl allbwn a thrafodaethau o'r CMB yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Swyddogion Technegol a'r Bwrdd Prosiect.

2.5. Yn ogystal â'r uchod, mae Rheolwr Contract yr awdurdod yn ymweld â'r safle yn wythnosol, er bod hyblygrwydd yn parhau i ymweld â'r safle ar adegau eraill pe bai'r angen yn codi.

3. YSTYRIAETHAU

Cynnydd cyffredinol

3.1. Mae'r cynnydd ar y safle wedi parhau'n gadarnhaol. Mae'r rhaglen waith sifil yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol ar hyn o bryd; ystafelloedd trydanol



(M&E)/ adeilad gweinyddol (adeiladu ystafell ac M&E), draeniau allanol blaenorol a gwaith safle (palmant a phriffyrdd, man troi)

- 3.2. Ffocws y broses yn ystod y Cyfnod Adrodd fu ar osod pibellau dŵr a stêm, cwblhau a phrofi craenau gwastraff, insiweiddio a chladin y boeler a Thriniaeth Nwy Ffliwiau, codi'r Cyddwysyddion Oeri Aer, cwblhau'r cludwyr lludw gwaelod a gosodiad trydanol a therfynu.
- 3.3. Mae contractau Llundw Gwaelod y Llosgydd a Gweddillion Rheoli Llygredd Aer bellach wedi'u cwblhau a'u llofnodi ac maent ar waith, gydag un gwelliant o'r Awdurdod yn cael ei wneud. Mae hyn yn ymwneud ag argaeledd gwybodaeth i'r Awdurdod os bydd y contract gyda WTI yn dod i ben a bod angen i'r Awdurdod gamu i mewn.
- 3.4. Mae'r fynedfa i'r safle, y rhwydwaith ffyrdd ar y safle a'r man troi ar gyfer cludo gwastraff yn y broses o gael e gwneud ar hyn o bryd.
- 3.5. Un problem sydd wedi codi yw parcio. Mae'r safle bellach ar ei anterth o ran staff ar y safle, gyda bron i 500 o bobl yn gweithio ar y safle. Mae hyn wedi golygu y bu rhai problemau gyda pharcio, o ran prinder lle ar adegau, a hefyd amodau tir nad ydynt bob amser yn ddelfrydol. Gan fod gwaith tir wedi dechrau mewn perthynas â phwll gwanhau i'r gogledd o'r safle, golyga hyn fod offer a pheiriannau hefyd yn gweithredu o gwmpas y man parcio, sydd wedi gorfod cael ei reoli'n ofalus.
- 3.6. Iechyd a Diogelwch

Mae'r safonau iechyd a diogelwch wedi'u cynnal ar gyfer y Cyfnod Adrodd hwn. Bu dau ddigwyddiad a fu bron â bod yn ddamweiniau (near misses) yn ystod y cyfnod adrodd ym mis Chwefror 2019. Roedd y damweiniau fu bron â digwydd yn cynnwys gwrthrych posibl a ollyngwyd, ac achosodd methiant hydrologig teleofalwr ddifrod i gladin. Mae Cyngor Diogelwch Prydain hefyd wedi archwilio'r safle ac wedi dyfarnu gradd 5 seren i'r prosiect. Nodir isod y ffigurau cronrus ar gyfer y gwaith.

Tabl 1

Categoriâu	Nifer
Digwyddiadau RIDDOR	1
Digwyddiadau Anafiadau Personol	13
Digwyddiadau a oedd bron yn ddamweiniau (near misses)	48
Cwynion	1
Digwyddiadau Amgylcheddol	4
Cardiau Arsylwi Peryglon	186
Cyfanswm Oriau Dynol	1,068,892

- 3.7. Cynllunio a Thrwydded
Ymwelodd yr awdurdod cynllunio â'r Parc Adfer ar 30^{ain} Ionawr 2019 i weld diwygiadau arfaethedig i linell ffens y Safle. Ni chodwyd unrhyw faterion am y ffensys ond gwnaed y sylwadau canlynol:



- Pryder am yr unedau trin awyr agored ar do'r ffasâd gorllewinol (ar ben yr adeilad gweinyddol) - mae Parc Adfer wedi gofyn i'r Is-contractwr Gwaith Sifil gywiro; a
- Problemau posibl gyda'r draeniad o'r safle yn deillio o waith cynnal gwael ar y tir cyfagos - mae Parc Adfer Cyf. wedi codi'r pryder gyda'r tiffeddianwyr cyfagos (Cyngor Sir y Fflint ac UPM).

Disgwylir i gynllun dadgomisiynu ac adfer safle gael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio ym mis Chwefror 2019. Mae Parc Adfer Cyf. wedi gofyn am estyniad i'r dyddiad cau i ganiatáu amser ar gyfer trafodaethau gyda'r Awdurdod (fel cleient) ar y dull gorau, o ystyried y gallai fod yn ddymunol i lefel benodol o amwynder barhau ar gyfer defnyddwyr diwydiannol yn y dyfodol.

Risg i'r rhaglen

3.8. Mae asesiad WTI o'r risg gyffredinol i'r amserlen yn parhau'n isel.

Dyddiadau allweddol a adroddwyd

3.9. Ar ddydd Gwener 15^{fed} Mawrth 2019, rhoddwyd hysbysiad ffurfiol cychwyn i WTI o'r "Profion Parodwydd" (cychwyn y broses Gomisiynu) gan eu contractwyr Peirianeg, Caffael ac Adeiladu (EPC), CNIM. Yna mae'n ofynnol i WTI, yn ei dro ac yn unol â'u contract EPC, gyhoeddi hysbysiad ffurfiol i'r Bartneriaeth. Ar ddydd Llun 18^{fed} Mawrth 2019 derbyniodd y Bartneriaeth hysbysiad bod y broses ffurfiol o "Gomisiynu" i gychwyn ar y 15fed Ebrill 2019, gyda disgwyl y cyflenwad cyntaf o wastraff i'r Parc Adfer disgwylir ar Ddydd Llun, 6ed Mai 2019. Bydd yr union ddyddiad o'r cyflenwad gwastraff 1af gan y Bartneriaeth yn cael ei gadarnhau yn gynnar ym mis Ebrill, fodd bynnag, disgwylir iddo fod yn agos at 6^{ed} Mai. Trafodir y paratodau ar gyfer hyn ymhellach ar yr agenda.

4. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor:-

4.1 Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1 Mae goblygiadau ariannol y contract eisoes wedi bod trwy broses gymeradwyo ym mhob awdurdod partner, a thrafodwyd goblygiadau'r cynnig diwygiedig gan y Bwrdd Prosiect a'r Cydbwyllgor.

6. EFFAITH GWRTH-DLODI

6.1 Amherthnasol.

7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL Tudalen 13



NWRWTP

North Wales Residual Waste Treatment Project

7.1 Mae goblygiadau amgylcheddol y contract eisoes wedi bod trwy broses gymeradwyo ym mhob awdurdod partner.

8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

8.1 Amherthnasol.

9. GOBLYGIADAU PERSONÉL

9.1 Amherthnasol.

10. ANGEN YMGYNGHORIAD

10.1 Fel y nodir yn yr adroddiad.

11. YMGYNGHORIAD WEDI EI GYNNAL

11.1 Amherthnasol.

DEDDF MYNEDIAD AT WYBODAETH LLYWODRAETH LEOL 1985

Dogfennau Cefndir:

Dim

Swyddog Cyswilt: Steffan Owen – Rheolwr Prosiect NWRWTP

**EITEM AGENDA RHIF: 6****ADRODDIAD I: CYD-BWYLLGOR NWRWTP****DYDDIAD: 26ain MAWRTH 2019****ADRODDIAD GAN: RHEOLWR CONTRACT****TESTUN: DIWEDDARIAD AR Y PARATOADAU AR GYFER COMISIYNU****(EITEM RHAN 2)****1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

- 1.1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyd-bwyllgor ar y cynnydd ar y gwaith o gynllunio ar gyfer dechrau Comisiynu'r Parc Adfer pan fydd gwastraff yr awdurdodau yn dechrau mynd i'r cyfleuster.

2. CEFNDIR

- 2.1. Ar ddydd Gwener 15^{fed} Mawrth 2019, rhoddwyd hysbysiad ffurfiol cychwyn i WTI o'r "Profion Parodwydd" (cychwyn y broses Gomisiynu) gan eu contractwyr Peirianeg, Caffael ac Adeiladu (EPC), CNIM. Yna mae'n ofynnol i WTI, yn ei dro ac yn unol â'u contract EPC, gyhoeddi hysbysiad ffurfiol i'r Bartneriaeth. Ar ddydd Llun 18^{fed} Mawrth 2019 derbyniodd y Bartneriaeth hysbysiad bod y broses ffurfiol o "Gomisiynu" i gychwyn ar y 15^{fed} Ebrill 2019, gyda disgwyl y cyflenwad cyntaf o wastraff i'r Parc Adfer disgwylir ar Ddydd Llun, 6^{ed} Mai 2019. Bydd yr union ddyddiad o'r cyflenwad gwastraff 1af gan y Bartneriaeth yn cael ei gadarnhau yn gynnar ym mis Ebrill, fodd bynnag, disgwylir iddo fod yn agos at y 6^{ed} Mai. Amlinellir y paratodau ar gyfer hyn isod.
- 2.2. Yn dilyn yr hysbysiad uchod, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, trefnodd y Prif Weithredwr arweiniol a'r Rheolwr Contract i gyfarfod â WTI i drafod yr hysbysiad ffurfiol a dechrau Comisiynu.

3. YSTYRIAETHAU

- 3.1. Fel y nodwyd uchod, disgwylir i'r cam Comisiynu Gwasanaethau y contract ddechrau ar ddydd Llun, 6^{ed} Mai 2019, sydd, i'r pum awdurdod partner yn y Bartneriaeth NWRWTP, yn golygu'r canlynol:-
 - a. Bydd angen i wastraff gweddilliol pob awdurdod partner (hyd at eu gwerthoedd Lleiafswm Tunnelledd Gwarantiedig unigol) gael ei gyflenwi i gyfleuster Parc Adfer.



- b. Bydd y ffi giât comisiynu yn daladwy i WTI, felly bydd WTI yn anfon eu hanfoneb gyntaf ar ôl mis cyntaf y comisiynu.
 - a. Bydd angen monitro perfformiad gweithredol y contract.

3.2. Er mwyn i'r uchod ddechrau a pharhau i weithio'n effeithiol, mae angen rhoi nifer o brosesau ar waith. Mae'r paragraffau isod yn rhoi amlinelliad o'r gwahanol agweddau lle mae angen gwaith i roi'r prosesau angenrheidiol ar waith.

Adnoddau a staffio

- 3.3. Mae gofynion adnoddau rheoli contract Parc Adfer wedi cael eu hadrodd yn flaenorol i'r Bwrdd Prosiect a'r Cyd-bwyllgor. Fel awdurdod arweiniol, mae Sir y Fflint wedi bod yn y broses o sefydlu strwythur staffio i sicrhau bod anghenion y swyddogaeth rheoli contractau yn cael eu diwallu. Yn allweddol i hyn mae integreiddio'r swyddogaeth Rheoli Contractau i Bortffolios Cyllid a Strydoedd presennol Sir y Fflint i sicrhau gwydnwch trwy ledaenu gwybodaeth a llai o ddibyniaeth ar aelodau unigol o staff.
- 3.4. Gyda'r uchod mewn cof, mae 2 aelod o staff newydd wedi dechrau gyda'r Rheolwr Contract ar y prosiect, ac wedi dechrau gweithio ar y prosiect a dechrau proses o reoli trosglwyddiad o'u rolau presennol yn Sir y Fflint i weithio ar gontract NWRWTP. Mae Paul Murphy, o Bortffolio Strydlun Sir y Fflint yn gweithio ar agweddau gweithredol ar reoli contractau (Swyddog Gweithredol), ac mae Carl Jones, o Bortffolio Cyllid Sir y Fflint yn gweithio ar agweddau gweithredol (Cyfrifydd Prosiect). Mae'r ddau yn brofiadol iawn yn eu meysydd priodol ac maent wedi bod yn gweithio gyda Rheolwr y Contract ar baratoadau ar gyfer comisiynu fel yr amlinellir isod.
- 3.5. Cynhaliwyd proses recriwtio hefyd ar gyfer rôl weinyddol i'r swyddogaeth rheoli contractau i gefnogi'r Tîm Rheoli Contractau yn eu swyddogaeth. Bydd y rôl hon yn dechrau gweithio ar y contract yn nes at y dyddiad cychwyn comisiynu, yn ôl yr angen.

Anfonebu, llif taliadau a rheoli data

- 3.6. Oherwydd y swm sylweddol o ddata a symiau o arian sy'n rhan o'r contract, mae angen protocolau trylwyr, cadarn a dealladwy a set o weithdrefnau gweinyddol i gymeradwyo taliad i WTI, dyrannu'r costau ac unrhyw incwm rhwng yr awdurdodau, codi anghydfodau anfoneb a chymeradwyo cysoniadau.
- 3.7. Trafodwyd hyn yn y Bwrdd Prosiect, a gymeradwyodd yr egwyddor y byddai pob awdurdod yn darparu taliad awtomatig i Sir y Fflint ar y 1af o bob mis, gyda chysoniad i'w ddilyn wedi hynny. Cytunwyd ar hyn oherwydd y symiau ariannol dan sylw i sicrhau nad yw'r Awdurdod arweiniol, Sir y Fflint, mewn perygl o fod "allan o boced" trwy orfod talu anfonebau WTI i'r Bartneriaeth gyfan. Ar ôl cytuno ar yr egwyddor hon, penderfynwyd y byddai'r swyddogion cyllid yn cytuno ar y manylion a'r union fecanwaith ar gyfer y taliad awtomatig hwnnw.



3.8. Mae'r Tîm Rheoli Contractau wedi bod yn datblygu opsiynau ar gyfer y taliad awtomatig ac maent hefyd wedi dechrau llunio protocol cyllid manwl. Bydd y protocol hwn yn sicrhau:-

- y rhoddir yr holl gymeradwyaeth angenrheidiol;
- y codir pob ymholiad anfoneb angenrheidiol, a
- bod taliadau gan awdurdodau partner i Sir y Fflint ac o Sir y Fflint i WTI yn digwydd o fewn amserlenni cytundebol.

3.9. Mae gwaith eisoes wedi'i wneud yn Sir y Fflint i sicrhau bod anfonebau WTI yn cael eu hawdurdodi a'u prosesu i'w talu yn unol â'r gweithdrefnau cywir a'r rheolau sefydlog. Mae Cyfrifydd y Prosiect yn arwain y paratodau manwl.

Protocol gweithredol rhwng awdurdodau partner

3.10. Yn ogystal â'r protocol uchod, bydd angen protocol gweithredol ysgrifenedig cytunedig (gyda phwyntiau cyswllt penodol ayb.) rhwng Sir y Fflint a'r awdurdodau partner eraill. Mae hyn er mwyn sicrhau:-

- rhyngwyneb gweithredol llyfn rhwng yr awdurdodau partner;
- awdurdodi amserol o gyflenwadau o wastraff a thunelleddau at ddibenion anfonebu, didynnu, archwilio ac adrodd,
- bod llinellau cyfathrebu clir ar gyfer materion gweithredol o ddydd i ddydd, a
- cynorthwyo i fonitro perfformiad a dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) y prif contract a hefyd y contract (au) cludo

Protocol cyllidol a gweithredol

3.11. Er mwyn datblygu a chytuno ar y protocolau cyllidol a gweithredol, trefnwyd sesiwn ar gyfer 27^{ain} Mawrth 2019 lle bydd y swyddogion cyllid a thechnegol o bob awdurdod partner yn bresennol. Bwriedir i'r canlyniadau gael y deilliannau canlynol:-

- Cytuno ar beth fydd y taliad awtomatig i Sir y Fflint a'r weithdrefn gysoni;
- Datblygu a chytuno ar brotocol cyllid manwl i gwmpasu cymeradwyo data, symiau anfonebau awdurdodau partner unigol, pwyntiau cyswllt (a phwyntiau cyswllt wrth gefn), gweithdrefnau ar gyfer codi ymholiadau neu anghydfodau anfonebu a sianelau cyfathrebu cytunedig. Bydd angen cyflawni'r rhain i gyd o fewn terfynau amser clir i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Contract;
- Datblygu a chytuno ar brotocol gweithredol manwl. Mae hyn yn cynnwys gosod a chymeradwyo amserlen trafndiaeth weithredol wythnosol, cytuno ar sianelau cyfathrebu rhwng yr awdurdodau partner unigol, y cludwr/wyr, WTI a'r awdurdod arweiniol.
- Cytuno ar y mecanwaith ar gyfer rhannu a chymeradwyo data a gwybodaeth (h.y. cronfa ddata a rennir / gyriant).

Mae drafft cynnar o'r atodlen trafndiaeth weithredol wythnosol ac amlinelliad o'r llifau taliadau ynghlwm (dogfennau ar wahân, Atodiadau 1 a 2 yn y drefn honno), er gwybodaeth. Bydd y rhain yn ffurfio sail y sesiwn ar 27^{ain} Mawrth.



Contract Cludo

3.12. Er mwyn i'r awdurdodau partner allu mynd â'u gwastraff gweddilliol i'r Parc Adfer, mae angen contract cludo. Mae'r broses o gaffael y contract cludo wedi'i rhannu'n "lotiau", yn seiliedig ar ffiniau awdurdodau, er mwyn gwneud y contract(au) yn fwy hygyrch i gontractwyr llai. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r broses gaffael yn mynd rhagddi gyda dyddiad cau o 25^{ain} Mawrth 2018. Rhoddir diweddariad ar lafar yn y Cyd-bwyllgor ar y broses.

3.13. Trafodir caffael y contract(au) cludo yn eitem agenda 7.

Paratodau gyda WTI

3.14. Rhan allweddol o'r paratodau gyda WTI yw sicrhau bod yr anfonebau a dderbynnir gan WTI yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r Bartneriaeth i'w galluogi i gael eu pasio i'w talu gan yr awdurdod arweiniol.

3.15. Mae'r Tîm Rheoli Contractau wedi bod yn gweithio gyda WTI ar hyn, ac mae wedi sicrhau y derbyniwyd mewnbwn gan swyddogion cyllid a gweithredol yr holl awdurdodau partner. Mae'r gwaith hwn bellach ar fin cael ei gwblhau, gydag enghreifftiau o anfonebau a "rhediad ffug" o anfoneb a data wedi'i drefnu yn ystod yr wythnosau nesaf.

Crynodeb

3.16. Yn gryno, mae'r paratodau ar gyfer comisiynu wedi bod yn datblygu'n dda ac mae'r cadarnhad diweddar o ddyddiad cadarn yn rhoi sicrwydd i'r bartneriaeth. Mae angen gwaith sylweddol yn awr i roi'r prosesau ar waith fel y disgrifir uchod, fodd bynnag gyda'r Tîm Rheoli Contractau yn eu lle, mae'r adnoddau a chynllun clir ar waith i sicrhau bod y gwaith hwn yn digwydd.

3.17. Mae'r Bwrdd Prosiect yn olrhain Cynllun Trosglwyddiad Comisiynu manwl yn rheolaidd i sicrhau bod y paratodau ar gyfer comisiynu yn ddigonol, yn ogystal ag olrhain Cofrestr Risg yn rheolaidd.

3.18. Un maes lle mae risg yn parhau yw mewn perthynas â'r contract cludo. Er bod rhywfaint o hyder y gall y contract(au) cludiant fod yn gwbl weithredol ar gyfer y 6^{ed} Mai, mae risg o hyd na fyddant. Gallai hyn fod o ganlyniad i ymateb gwael i'r broses dendro, bod y broses werthuso'n cymryd mwy o amser na'r disgwyl, neu fod problemau o ran rhoi'r contractau ar waith. Trafodir hyn ymhellach yn eitem agenda 7.

4. ARGYMHELLION

4.1. Nodi cynnwys yr adroddiad

5. GOBLYGIADAU ADNODDAU



5.1. Mae goblygiadau ariannol y Contract wedi cael eu hadrodd i'r Cyd-bwyllgor o'r blaen.

6. EFFAITH GWRTH-DLODI

Amh.

7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL

Amh.

8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Amh.

9. GOBLYGIADAU PERSONÉL

9.1 Fel y nodir yng nghorff yr adroddiad hwn

10. ANGEN YMGYNGHORIAD

Dim.

11. YMGYNGHORIAD WEDI EI GYNNAL

11.1. Fel y nodir yn yr adroddiad.

DEDDF MYNEDIAD AT WYBODAETH LLYWODRAETH LEOL 1985

Dogfennau Cefndir:

Dim

Swyddog Cyswllt: Steffan Owen
Rheolwr Prosiect
Steffan.r.owen@flintshire.gov.uk

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol

North Wales Regional Waste Treatment Project

Financial Protocol

Tudalen 23

Key Principals

- The key principals generally applicable in relation to the allocation of costs and income between the Councils are:
- **Non Service Period** costs will be shared equally between the Councils with the exception of Interim Service Payments and Commissioning Payments, which will be allocated based on each Council's usage (unless otherwise specified in the Second Inter Authority Agreement)
- **Service Period** costs and income will be split between the Councils pro rata to the tonnages delivered or forecast to be delivered by each Council.

Tudalen 26

Welsh Government Funding

Any Welsh Government funding to the Councils in respect of the Project shall be paid to the Lead Council and each of the Councils' entitlement shall be on a pro rata basis in accordance with Appendix B (Cost Sharing) of Schedule 8 (Payment Proportions). WG funding is expected to be received quarterly.

Tudalen 25

Appendix B (Cost Sharing)


	Anglesey A%	Conwy C%	Denbighshire D%	Flintshire F%	Gwynedd G%	Total
Cost Sharing Ratio	15.13%	19.89%	13.43%	28.07%	23.47%	100.00%


The Cost Sharing ratio for each Council is based on the agreed predicted proportion of the usage of the Facility by each Council.

Automatic Payments

- The principle of Automatic Payments has been discussed and approved at Project Board level.
- An Automatic Payment eases the pressure on the Partnership when processing and reconciling payments to the Contractor.
- Options for an Automatic Payment to be considered and agreed by the Partnership; suggested options are as follows.

Process details





WEEKLY OPERATIONAL TRANSPORT SCHEDULE

(1) WEEK START DATE :		WEEK END DATE:			Authorities to Enter Estimated Time of Arrival at Parc Adfer / Parc Adfer to Enter Actual Net Weight of Each Load on a Arrival.														
Origin of the Waste: Site or Producer	Round Number or Reference Number	Vehicle Type	Number of Trips / day	Estimated, Net Weight	ETA Time	ETA Monday	Parc Adfer Actual Weight	ETA Tuesday	Parc Adfer Actual Weight	ETA Wednesday	Parc Adfer Actual Weight	ETA Thursday	Parc Adfer Actual Weight	ETA Friday	Parc Adfer Actual Weight	ETA Saturday	Parc Adfer Actual Weight	ETA Sunday	Parc Adfer Actual Weight
FCC Alltami (direct)	R1	RCV	1	15	AM	08:00	14.5												
Address:	R1	RCV	1	18	AM	10:00	15			10:00	17.5			11:00	16.5				
Alltami Depot					AM	11:00													
CH7 6LG	R2	RCV	1		PM	14:00	20	08:30	19.5									14:00	21
	R3	RCV	1		PM	15:00	22					09:00	22						
					PM	16:00													
(2)			4	33	<TOTALS>		71.5		19.5		17.5		22		16.5		0		21
FCC Alltami WTS (bulk)	W1	WIF	1	18	AM	09:00	20											11:00	18.9
Address:	W2	WIF	1	21	AM	10:00	21.5							14:30	22.5				
Alltami Depot	RO1	RORO	1		AM	10:00													
CH7 6LG					PM														
					PM														
					PM														
(3)			3	39	<TOTALS>		41.5		0		0		0		22.5		0		18.9
FCC Greenfield (bulk)	W1	WIF	1		AM	09:00													
Address:	W2	WIF	1		AM	10:00													
Greenfield WTS	RO1	RORO	1		AM	10:30													
					PM														
	W1	WIF	1	21	PM	14:00	19.5												
					PM														
					PM														
(4)			4	21	<TOTALS>		19.5		0		0		0		0		0		0
Drivers Names	Ref	Type	Registration	Inducted (Y/N)	Key Contact Name	Contact Position	Contact Number	2nd Contact Name	2nd Contact Position	2nd Contact Number									
Joe Blogs 1	R1	RCV	R41 XYZ	Yes	Sid Blogs	Ops Manager	0123456789	Fred Blogs	Transport Manager	0987654321 (Office)									
Passenger / Crew Names	Ref	Type	Registration	Inducted (Y/N)	Key Contact Name	Contact Position	Contact Number	2nd Contact Name	2nd Contact Position	2nd Contact Number									
Joe Blogs 2	R1	RCV	R41 XYZ	No	Sid Blogs	Ops Manager	0123456789	Joe Blogs	Driver	086429871 (Cab)									
(5)																			
Reference	Comments:																		
R1 / Monday	Expected to be a slight delay due to road works end route (example)																		

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol



EITEM AGENDA RHIF: 7

ADRODDIAD I: CYD-BWYLLGOR NWRWTP

DYDDIAD: 26ain MAWRTH 2019

ADRODDIAD GAN: RHEOLWR CONTRACT

**TESTUN: ADRODDIAD CONTRACT CLUDIANT A GORSAFOEDD
TROSSLWYDDO GWASTRAFF – EITEM RHAN 2**

EITEM RHAN 2

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1.1 ddiweddarau'r Cyd-bwyllgor ar gynnydd ar ddatblygu gorsafodded trosglwyddo gwastraff (GTG) yng Nghonwy a Sir Ddinbych.
- 1.2. I ddiweddarau'r Cyd-bwyllgor ar ddatblygiadau ar gontract cludiant y bartneriaeth.

2. CEFNDIR

- 2.1. Cytunir y bydd y gwaith o ddatblygu gorsafodded trosglwyddo gwastraff yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn cael ei ariannu gan y Bartneriaeth ac o fewn Ail Gytundeb Rhyng-Awdurdod, rhoddwyd cap ariannol ar y datblygiadau hyn, a osodwyd ar £2.5m.
- 2.2. Nododd Conwy safle dewisol ar gyfer y GTG newydd yn Blackmarsh Road, Mochdre. Mae'r safle mewn perchnogaeth awdurdod lleol ac fe'i defnyddir ar hyn o bryd fel Depo Priffyrdd a Fflyd. Caiff y swyddogaeth hon ei throsglwyddo i safle newydd ym Mharc Masnach Mochdre fel rhan o'r prosiect i atgyfnerthu nifer o ddepos gweithredol i un safle. Llofnododd Conwy brydles ym Mharc Masnach Mochdre, ond mae materion cyfreithiol wedi gohirio adeiladu a gwacáu dilynol Blackmarsh Road. Rhoddir rhagor o fanylion yn adrannau 3.1 i 3.3 isod.
- 2.3. I ddechrau, roedd Sir Ddinbych wedi nodi safle addas yn Depo Parc Cinnel, Bodelwyddan ar gyfer gorsaf trosglwyddo gwastraff i rannau gogleddol y sir. Ers i'r safle hwnnw gael ei nodi, mae Sir Ddinbych wedi gwneud gwaith gyda WRAP (Rhaglen Weithredu Gwastraff ac Adnoddau) sy'n modelu senarios casglu yn y dyfodol a'r model gwastraff dewisol yw symud system ailgylchu math ymyl y ffordd (o'r system 'cydgymysgu' bresennol) a lleihau'r casgliadau gweddilliol i bob pedair wythnos. Mae'r newid hwn yn y gwasanaeth yn golygu bod y gofynion ar gyfer trosglwyddo deunyddiau gwastraff gweddilliol ac ailgylchu wedi newid yn sylweddol, ac mae angen eu hystyried gyda'i gilydd.



2.4. Mae Cyngorau Gwynedd, Ynys Môn a Sir y Fflint i gyd yn paratoi trefniadau trosglwyddo gwastraff addas yn eu hawdurdodau, a grynhoir yn adrannau 3.9 a 3.10 isod.

3. YSTYRIAETHAU

Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff Conwy a Sir Ddinbych

- 3.1. Fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Cyd-bwyllgor, mae Conwy a Sir Ddinbych yn bwriadu datblygu eu Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff eu hunain fel y disgrifiwyd yn 2.1 i 2.3 uchod, fodd bynnag er mwyn sicrhau bod gan y ddau awdurdod drefniadau Trosglwyddo Gwastraff yn eu lle tra bod y Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff newydd yn cael eu datblygu, cychwynnodd Conwy a Sir Ddinbych ar ymarfer caffael ar y cyd ar gyfer trefniadau trosglwyddo gwastraff dros dro i gwmpasu'r cyfnod o Gomisiynu'r Parc Adfer i'r adeg pan oedd y cyfleusterau newydd ar gael.
- 3.2. Cwblhawyd y broses gaffael honno'n ddiweddar, gyda'r canlyniad mai Thornclyffes oedd y cynigwyr llwyddiannus, gan weithio allan o'u safle yn Abergele. Mae'r cyfnod digyfnewid (Alcatel) yn gorffen ar 25^{ain} Mawrth 2019.

Arian Cyfalaf Llywodraeth Cymru

- 3.3. Mae'r Bartneriaeth wedi cynnal trafodaethau anffurfiol gyda LIC ynglŷn â sicrhau buddsoddiad cyfalaf ar gyfer Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff gweddilliol Sir Ddinbych a Chonwy yr ymrwymwyd iddynt fel rhan o'r ail Gytundeb Rhyng-Awdurdod y cyfeiriwyd ato yn 2.1 uchod, a chafwyd adborth cadarnhaol gan LIC.
- 3.4. Y canllawiau gan LIC oedd y byddai angen i unrhyw achos dros gyllido gan y bartneriaeth ffocysu ar ofynion gwastraff gweddilliol y Bartneriaeth.
- 3.5. Yn dilyn trafodaethau helaeth o fewn y Bartneriaeth, cyflwynwyd cais cynhwysfawr i LIC ar ddechrau mis Ionawr 2019 am arian cyfalaf. Rhannwyd y cais hwn yn 2 "flaenoriaeth". Y flaenoriaeth gyntaf ("Blaenoriaeth 1") oedd cais am arian ar gyfer Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff Sir Ddinbych a Chonwy yr ymrwymwyd iddynt fel rhan o'r ail Gytundeb Rhyng-Awdurdod y cyfeiriwyd ato yn 2.1 uchod, hyd at werth yr ymrwymiad o £2.5m.
- 3.6. Roedd yr ail flaenoriaeth ("Blaenoriaeth 2") yn ymwneud ag addasiadau gweithredol mewn safleoedd y mae Cyngorau Ynys Môn, Sir y Fflint a Gwynedd yn berchen arnynt ac yn eu gweithredu. Byddai hyn ond yn llwyddiannus pe bai LIC yn gallu ariannu Blaenoriaeth 1 a dal i ariannu peth neu'r cyfan o Flaenoriaeth 2 hefyd. Mae crynodeb o'r cais hwn yn Atodiad 3.



- 3.7. Pe bai'r cais yn llwyddiannus, bydd yn golygu y byddai'r £2.5m (£500k fesul awdurdod) y mae'r pum awdurdod partner wedi ei ddyrannu i ariannu'r gorsafoedd trosglwyddo gwastraff gweddilliol ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych yn cael ei ariannu gan LIC ac felly ni fyddai ei angen mwyach a byddai'r awdurdodau partner yn cadw eu £500k at eu defnydd eu hunain.
- 3.8. Ni dderbyniwyd ymateb ffurfiol gan LIC adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ac eithrio bod y cais yn cael ei ystyried.

Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff Ynys Môn a Gwynedd

- 3.9. Ar hyn o bryd, mae gan Gyngor Ynys Môn contract sector preifat ar gyfer derbyn, cludo a thrin eu gwastraff gweddilliol gydag un darparwr. Mae gan y Cyngor orsaf trosglwyddo gwastraff o fewn ei ffiniau nad yw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer gweithrediadau trosglwyddo gwastraff; fodd bynnag, mae Ynys Môn wedi cynnal ymarfer profi marchnad feddal i gael dealltwriaeth o'r hyn y gall y sector preifat ei ddarparu o ran gorsafoedd derbyn/trosglwyddo gwastraff o fewn ei ffiniau. O ganlyniad i brofi'r farchnad feddal, bu Ynys Môn hefyd yn gweithio ar gostio'r opsiwn o ailagor ei gorsaf trosglwyddo gwastraff eu hunain ym Mhenhesgyn. Mae'n werth nodi hefyd gyda Penhesgyn bellach yn cael ei ystyried, mae Ynys Môn yn agored i'r opsiwn o ddod i gytundeb â Chyngor Gwynedd ynglŷn â'i defnydd gan Gwynedd fel gorsaf trosglwyddo gwastraff ar gyfer rhan ogleddol y sir.
- 3.10. Ar hyn o bryd, mae Gwynedd yn gweithredu dwy orsaf trosglwyddo gwastraff eu hunain yn Harlech a Chaernarfon, ond maent yn agored i archwilio'r opsiwn o ddefnyddio gorsaf trosglwyddo gwastraff Ynys Môn ar gyfer rhannau gogleddol y sir. Mae trafodaethau eisoes wedi digwydd rhwng Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn mewn perthynas â hyn; fodd bynnag, ni chyrrhaeddwyd cytundeb.

Trosglwyddo Gwastraff yn Sir y Fflint

- 3.11. Ar hyn o bryd, mae Sir y Fflint yn defnyddio dwy orsaf trosglwyddo gwastraff. Mae un safle yn Greenfield sy'n eiddo i Sir y Fflint ac sy'n cael ei weithredu ganddo, ac ail safle yn Alltami sy'n cael ei weithredu gan gwmni sector preifat Thorncliffe. Y cynlluniau presennol yw parhau i ddefnyddio'r ddau safle hyn o dan y trefniadau presennol i swmpio a chludo mwyafrif eu gwastraff gweddilliol i'r Parc Adfer, gyda nifer fach o gerbydau casglu sbwriel yn cyflenwi'n uniongyrchol.

Contract Cludiant

- 3.12. Cytunodd y Bartneriaeth i gynnal ymarfer caffael ar gyfer contract cludiant ar draws y bartneriaeth, i'w reoli gan y Bartneriaeth, ac y dylid rhannu hyn yn "lotiau" i alluogi cwmnïau llai i wneud cais am contract(au).
- 3.13. Yn dilyn proses o gytuno ar y dogfennau caffael a chytundebol, cychwynnodd y Bartneriaeth yn ffurfiol ar y broses gaffael ym mis Chwefror 2019. Mae'r broses yn fyw ar adeg ysgrifennu, gyda dyddiad cau



ddydd Llun, 25^{ain} Mawrth 2019 ar gyfer ceisiadau, yn dilyn cais am estyniad wythnos o'r dyddiad cau gwreiddiol o 18^{fed} Mawrth 2019.

- 3.14. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae sawl eglurhad caffael wedi dod i law, gyda 12 o gyflenwyr wedi'u cofrestru ar y porth Proactis ar-lein lle rheolir y broses gaffael.
- 3.15. Mae gan y contract(au) cludo gyfnod o 20 diwrnod ar gyfer symudiadau er mwyn iddynt ddod yn weithredol mewn pryd ar gyfer y cuyflenwad cyntaf i'r Parc Adfer. Y dyddiad cau ar gyfer tendrau contract cludiant, fel y nodwyd uchod, yw 25^{ain} Mawrth. Wrth ganiatáu camau caffael angenrheidiol (cyfnod 10 diwrnod digyfnwid Alacatel, cwblhau a llofnodi contractau ayb), gwyliau banc (Pasg), mae risg na fydd y contract(au) cludiant yn eu lle erbyn 6^{ed} Mai.
- 3.16. Mae'r risg hon wedi'i chofnodi'n flaenorol ar y Gofrestr Risgiau yn y Bwrdd Prosiect ac yn dilyn trafodaethau, mae pob awdurdod partner wedi datblygu cynlluniau wrth gefn pe na byddai contract(au) cludo yn weithredol ar gyfer y dyddiad hwn. Mae'r trefniadau wrth gefn hyn wedi'u cyfleu i bob awdurdod celfyddydol drwy'r grŵp swyddogion technegol. Os bydd angen y trefniant wrth gefn hwn, rhagwelir mai dim ond am gyfnod byr y bydd angen hyn (e.e. ychydig ddyddiau neu oddeutu wythnos).
- 3.17. Rhoddir diweddariad ar lafar i'r Cyd-bwyllgor ar ganlyniad y broses gaffael a'r amserlen derfynol i'r contract(au) ddod yn weithredol.

4. ARGYMHELLION

- 4.1. Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.1. Mae amcangyfrif o oblygiadau ariannol Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff Conwy wedi cael ei adrodd yn flaenorol i'r Cydbwyllgor a'r Bwrdd Prosiect. Mae goblygiadau ariannol gofyniad seilwaith newydd Sir Ddinbych yn llai eglur ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei amlinellu fel rhan o'r cais i Lywodraeth Cymru am gyllid a bydd yn cael ei adrodd yn ôl i'r Bartneriaeth unwaith y bydd manylion y cais wedi'u cwblhau.
- 5.2. Bydd effaith ariannol y contract cludiant yn cael ei adrodd i'r Cyd-bwyllgor fel y nodir yn 3.16

6. EFFAITH GWRTH-DLODI

Amh.

7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL

Amh.



8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB
Amh.

9. GOBLYGIADAU PERSONÉL
Amh.

10. ANGEN YMGYNGHORIAD
Dim.

11. YMGYNGHORIAD WEDI EI GYNNAL

11.1. Mae datblygiad GTG Conwy wedi ei adrodd yn rheolaidd i'r Grŵp Prosiect, y Cydbwyllgor a'r swyddogion technegol. Mae datblygiadau GTG yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn eitem reolaidd ar yr agenda yng nghyfarfodydd y Bwrdd Prosiect.

DEDDF MYNEDIAD AT WYBODAETH LLYWODRAETH LEOL 1985

Dogfennau Cefndir:

Dim

Swyddog Cyswllt: Steffan Owen
Rheolwr Prosiect
Steffan.r.owen@flintshire.gov.uk
07917 306462

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol



Achos i Lywodraeth Cymru am Arian Cyfalaf ar gyfer Seilwaith ac Offer sy'n ofynnol i gyflwyno gwastraff gweddilliol i'r Parc Adfer.

24ain Rhagfyr, 2018

CRYNODEB

Mae NWRWTP yn gofyn am Arian Cyfalaf i hwyluso cyflenwi gwastraff trwy contract WTI i gyfleuster trin gwastraff y Parc Adfer. Mae'r cyfleuster yn sicrhau bod gwastraff na ellir ei ailgylchu yn cael ei drin dan yr amodau gorau posibl i leihau'r effaith amgylcheddol o waredu gwastraff na ellir ei ailgylchu ar yr un pryd â sicrhau ynni adfer. Fodd bynnag, er gwaethaf cymhorthdal cytunedig Llywodraeth Cymru i wneud y newid yn fforddiadwy i'r pum Awdurdod Partner, mae hefyd gostau cyfalaf unwaith ac am byth ymlaen llaw ym mhob awdurdod i addasu gweithrediadau er mwyn trosglwyddo gwastraff i'r Parc Adfer yn y ffordd fwyaf cost effeithiol. Felly mae NWRWTP yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried cais am gyllid o £ 4,355,000 i gefnogi pob un o'r 5 awdurdod lleol yn y Bartneriaeth.

CAIS AM ARIAN

Cytunodd y Bartneriaeth bod ein cais am arian yn cael ei flaenoriaethu fel a ganlyn:

Blaenoriaeth 1: £2.5M ar gyfer seilwaith GTG newydd (Conwy a Sir Ddinbych)

Bydd yr arian hwn yn ariannu'n llawn y cyfleuster trosglwyddo gwastraff i Gonwy, i dderbyn, swmpio a throsglwyddo'r holl wastraff cartref gweddilliol i'r Parc Adfer (£1.8M). Os bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu Blaenoriaeth 1, bydd o fudd i'r pum awdurdod lleol, sydd â contract rhwymol i ddarparu £500K yr un ar gyfer darparu'r cyfleusterau hyn. Bydd dychwelyd yr arian hwn i bob Awdurdod Lleol yn helpu i leddfu pwysau cyllidebol arall.

Blaenoriaeth 2: £1.855M ar gyfer seilwaith GTG ac addasu gweithredol (Pob un o'r pum awdurdod partner)

Mae angen addasiadau gweithredol ar safleoedd y mae Cyngorau Ynys Môn, Sir y Fflint a Gwynedd yn berchen arnynt ac yn eu gweithredu. Mae angen i Sir y Fflint ac Ynys Môn uwchraddio offer rhaw lwytho i baratoi HRC a gwastraff swmpus nad ydynt yn adferadwy fel eu bod yn cwrdd â meini prawf Derbyn y Parc Adfer. Bydd cludiant mwy effeithlon hefyd yn deillio o'r rhag-driniaeth hon, gan leihau effaith carbon symudiadau cerbydau. Mae Cyngor Gwynedd yn gorfod uwchraddio cyfleuster GTG i gwrdd â rheoliadau tân newydd, mwy caeth, o ganlyniad i baratoi'r safle yn barod ar gyfer contract WTI. Mae Cyngor Sir

**NWRWTP**

North Wales Residual Waste Treatment Project

Ddinbych wedi gofyn am £500K pellach ym Mlaenoriaeth 2, i ddarparu gweddill yr elfen trosglwyddo gwastraff gweddilliol yn eu cyfleuster trosglwyddo gwastraff/trosglwyddo integredig newydd. Mae'n bwriadu ail-fuddsoddi'r ymrwymiad £500K IAA2 i ddatblygiad depo, yn ogystal â dod o hyd i arian cyfatebol sylweddol o Fenthyca Darbodus, er mwyn cyflawni eu Model Gweithredu Newydd. Mae Conwy wedi gofyn am gyllid i ddarparu'r elfen Cyfleuster Adfer Deunyddiau o'u datrysiad integredig ym Mochdre, gan sicrhau bod ffrydiau gwastraff masnachol, swmpus ac HRC yn cael eu paratoi yn unol â meini prawf derbyn gwastraff y Parc Adfer, ac yn galluogi'r adferiad adnoddau gorau posibl, gan lynu at yr Hierarchaeth Wastraff.

PROFFIL GWARIANT CYFALAF ARFAETHEDIG

Awdurdod	Blaenoriaeth 1	Blaenoriaeth 2		Arian Cyfatebol ALL
	20/21 £	19/20 £	20/21 £	
Sir Ddinbych Elfen trosglwyddo gwastraff sy'n mynd i'r Parc Adfer o ddatblygiad depo canolog integredig fel rhan o'r model gweithredu newydd (cydymffurfio â'r Glasbriant)	700,000		500,000	2,261,000 (£500K rhyddhau £500K o IAA2 ynghyd â Benthycia Darbodus - Heb gynnwys arian cyfatebol o £1M a ymrwymwyd eisoes i Fodel Gweithredu Newydd a gyflwynwyd i helpu i sicrhau'r arian o £7.9M gan Lywodraeth Cymru)
Conwy GTG / MRF ar gyfer gwastraff gweddilliol, swmpus, masnachol a gwastraff gweddilliol HRC	1,800,000		900,000	400,000 (Gwerth tir)
Sir y Fflint – rhaw lwytho i wastraff ymyl y ffordd/ swmpus a gwastraff gweddilliol HRC sy'n mynd i'r Parc Adfer		180,000		-
Ynys Môn - rhaw lwytho i wastraff ymyl y ffordd/ swmpus a gwastraff gweddilliol HRC sy'n mynd i'r Parc Adfer		180,000		-



Gwynedd - Uwchraddio GTG fel ei bod yn addas i'r diben ar gyfer derbyn a swmpio gwastraff sy'n mynd i'r Parc Adfer		95,000		-
CYFANSWM	2,500,000	455,000	1,400,000	2,660,000

MEINI PRAWF ARIANNU

Mae atodiadau 1a-e yn manylu ar ofynion pob awdurdod ac yn amlinellu sut mae meini prawf ariannu Llywodraeth Cymru yn cael eu bodloni.

GWYBODAETH BELLACH: BLAENORIAETH 1

Gofynion Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych

Nid yw WTI yn darparu unrhyw orsafoedd trosglwyddo o dan y contract arfaethedig. Bydd y gorsafoedd trosglwyddo presennol o dan reolaeth yr awdurdodau partner yn parhau i weithredu dan reolaeth yr awdurdod perthnasol. Fel y nodwyd eisoes, mae angen o hyd i bob awdurdod partner nodi safle(oedd) addas a datblygu gorsaf drosglwyddo ar gyfer Conwy a gogledd Sir Ddinbych.

Trosglwyddir gwastraff contract o'r orsaf drosglwyddo berthnasol i'r Parc Adfer trwy gontract trafndiaeth ar y ffordd a gaffaelir ac a reolir gan yr awdurdodau partner. Mae'r Bartneriaeth ar fin cychwyn ar ymarfer caffael am gontract cludiant i gludo holl wastraff y Bartneriaeth i'r Parc Adfer. Bydd hyn yn cael ei gaffael fel un contract ond bydd yn cael ei rannu'n 'lotiau' i bob awdurdod er mwyn galluogi contractwyr lleol llai i wneud cais am 'lot'. Cynigir mai dim ond Sir y Fflint a fydd yn cyflenwi ei gwastraff yn uniongyrchol i'r Parc Adfer, fel rhan o'u gwasanaethau casglu gwastraff gweddilliol parhaus.

Mae gweithrediad y gorsafoedd trosglwyddo gwastraff yn rhan annatod o'r prosiect gan fod eu gweithrediad yn sicrhau y gall pob awdurdod gael mynediad i'r contract trwy drosglwyddo'r gwastraff i'r cyfleuster.

O fewn Conwy a Sir Ddinbych, mae datblygiadau GTG yn rhan annatod o'u systemau rheoli gwastraff ehangach ac maent wedi'u cynllunio i gynyddu effeithlonrwydd a pherfformiad eu gwasanaethau ailgylchu. Cyflawnir hyn trwy ddylunio safleoedd o amgylch ailgylchu, a gallu derbyn gwastraff gweddilliol i'w gludo ymhellach i'r Parc Adfer. Mae hyn yn caniatáu effeithlonrwydd mewn agweddau fel cynllun a dyluniad y safle, storio a thrin deunydd, staffio a thrafnidiaeth.

Mae'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau sy'n rhwymo'r pum awdurdod yn gyfreithiol i gontract WTI hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod ymrwymo £500K i ariannu gofynion seilwaith trosglwyddo gwastraff Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych (Cyfanswm yr ymrwymiad £2.5M). Mae gan Conwy gynnig wedi'i gostio'n llawn ar gyfer cyfleuster integredig ym Mochdre (£2.7M), y costwyd yr elfen trosglwyddiad gwastraff gweddilliol ar £1.8M. Mae swyddogion technegol o bob rhan o'r Bartneriaeth



NWRWTP

North Wales Residual Waste Treatment Project

wedi craffu ar y “rhaniad” costau a'i dderbyn. Yn wreiddiol, roedd Sir Ddinbych wedi nodi safle addas yn Nepo Parc Cinnel, Bodelwyddan. Cafodd darparu GTG ar gyfer trosglwyddo gwastraff cartref gweddilliol yn Nepo Cinnel yn unig ei gostio ar £2.5M. Mae hyn yn cynnwys £1.05M o gostau gwaith tir, sy'n codi o broffil heriol y safle. Oherwydd cost uchel y gwaith daear, mae amrywiaeth o opsiynau amgen wedi cael eu harchwilio er mwyn dod o hyd i ateb sy'n diwallu anghenion Sir Ddinbych, ond hefyd yn darparu'r elw gorau ar fuddsoddiad yn y tymor hwy.

Mae Cyngor Sir Ddinbych newydd gyhoeddi'n ffurfiol ei fod yn symud i system gasglu gwahanu yn y tarddle er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r glasbrint, ar ôl sicrhau £7.9M o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r buddsoddiad sydd ei angen i newid ei system gasglu. Fel rhan o'r Model Gweithredu, nodwyd mai'r ateb mwyaf manteisiol yn economaidd oedd gweithredu o un depo canolog, a oedd yn gallu derbyn a swmpio ailgylchu wedi'i wahanu ar ymyl y palmant, gwastraff bwyd, gwastraff gardd a gwastraff gweddilliol ymyl y ffordd. Cost y depo newydd yw £6.6M, ond mae'r arbedion refereniw cynyddol y mae'r lleoliad canolog yn ei gynnig, o'i gymharu ag opsiynau eraill, yn galluogi'r Cyngor i ariannu peth o'r arian cyfalaf sydd ei angen i gyflawni'r model gweithredu newydd cyfan, sy'n costio £12.361M i'w gyflenwi.

**EITEM AGENDA RHIF: 8****ADRODDIAD I: CYD-BWYLLGOR NWRWTP****DYDDIAD: 26ain MAWRTH 2019****ADRODDIAD GAN: RHEOLWR CONTRACT****TESTUN: ADRODDIAD AR OFYNIION MONITRO ALLYRIADAU****(EITEM RHAN 2)****1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

- 1.1. Rhoi gwybodaeth gefndir i'r Cyd-bwyllgor ynghylch monitro allyriadau aer y Parc Adfer, fel sy'n ofynnol gan Gyfoeth Naturiol Cymru.
- 1.2. Rhoi gwybod i'r Cyd-bwyllgor am gostau monitro ychwanegol o ronynnau PM2.5 o'r Parc Adfer, fel y darperir ar ei gyfer yn y contract gyda Wheelabrator Technologies Inc (WTI).

2. CEFNDIR

- 2.1. Yn ystod y broses gaffael, rhoddwyd ystyriaeth a chafwyd trafodaeth sylweddol ar lefel y Cyd-bwyllgor a'r Bwrdd Prosiect ar destun allyriadau o gyfleuster Ynni o Wastraff ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.
- 2.2. Rhoddwyd ystyriaeth benodol gan y Cyd-bwyllgor ar ddiwedd 2012 a dechrau 2013, gan gynnwys sesiwn benodol o'r Cyd-bwyllgor gydag uwch swyddog o Lywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Diogelu Iechyd (bellach Iechyd y Cyhoedd Lloegr) ar effeithiau iechyd allyriadau ynni o wastraff.
- 2.3. Un maes o bryder penodol i Aelodau oedd mater gronynnol, yn enwedig y gronynnau lleiaf sy'n cael eu dynodi'n PM2.5 (sef gronynnau o 2.5 µm ac o dan hynny - darperir eglurhad pellach yn 3.1 isod).
- 2.4. O ganlyniad i'r trafodaethau hynny ac i ymdrin â'r pryderon sy'n ymwneud ag allyriadau gronynnau PM2.5, cafodd opsiwn cytundebol ei gynnwys yn y contract i WTI fonitro ac adrodd ar ronynnau PM2.5 yn ychwanegol at y gyfundrefn fonitro arferol y byddai'n rhaid i WTI ei chynnal o dan eu caniatâd, fel y'i cyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru.
- 2.5. Roedd y contract yn nodi mai'r contractwr fyddai'n talu unrhyw gostau monitro PM2.5 fel sy'n ofynnol o dan eu caniatâd, fodd bynnag, y Bartneriaeth fyddai'n ysgwyddo unrhyw gostau monitro PM2.5 ychwanegol at y gyfundrefn monitro caniatâd sy'n ofynnol gan y Bartneriaeth.



- 2.6. Darparwyd costau amcangyfrifedig i'r Cyd-bwyllgor ym mis Chwefror 2013, fodd bynnag, byddai angen gwneud y penderfyniad ar union amllder adrodd a monitro penodol yn ychwanegol at ofynion y caniatâd ar yr adeg y daw'r cyfleuster yn weithredol, pan fydd y gwir gostau'n hysbys.
- 2.7. Gyda Gwasanaethau Comisiynu ar fin dechrau, gofynnodd Rheolwr y Contract i WTI gael gafael ar gostau ar gyfer monitro ychwanegol, a amlinellir yn 3.12 isod.

3. YSTYRIAETHAU

Beth yw PM2.5?

- 3.1. Mae deunydd gronynnol (PM) yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio pob deunydd solet crog mewn aer. Gall PM amrywio o ran maint o ychydig gannoedd o ficonau (y cyfeirir atynt fel arfer fel 'graeau' neu 'lwch') i lai nag un micron (y cyfeirir atynt yn gyffredin fel 'gronynnau mân iawn' neu 'nano-ronynnau'). Mae 1 micron yn hafal i un filiwnfed o fetr, neu 1 micrometr (1µm). Fel cymhariaeth, 100µm yw lled cyfartalog blewyn o wallt dynol, tra bod 6-8µm yn ddiamedr cell waed coch. Mae PM10 yn cyfeirio at bob gronyn sydd â diamedr yn llai na neu'n hafal i 10µm, tra bod PM2.5 yn cyfeirio at bob gronyn sydd â diamedr yn llai na neu'n hafal i 2.5µm.
- 3.2. Mae PM2.5 yn digwydd oherwydd allyriadau o ffynonellau naturiol a rhai o waith dynol. Mae ffynonellau naturiol yn cynnwys ewyn môr/halen a thanau naturiol, tra bod ffynonellau o waith dynol fel arfer yn deillio o drafnidiaeth a hylsgi domestig a diwydiannol.

Sut y rheoleiddir PM2.5?

- 3.3. Mae allyriadau PM2.5 o gyfleusterau Ynni o Wastraff yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr drwy'r Gyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol. Cyn i unrhyw gyfleuster ddechrau gweithredu, bydd angen i weithredwyr y gwaith hwnnw wneud cais i Cyfoeth Naturiol Cymru am drwydded amgylcheddol, a fydd ond yn rhoi'r drwydded honno os gall y gweithredwr ddangos na fydd yr allyriadau PM o'r corn simdda (h.y. gan gynnwys PM2.5) yn fwy na chrynodiad penodol. Yn ogystal, bydd angen iddynt ddangos, pan fydd gollyngiadau o'r corn yn cael eu cymysgu ag aer amgylchynol, nad yw crynodiad PM2.5 yn yr aer sy'n cael ei anadlu mewn ardaloedd poblog cyfagos yn fwy na chrynodiad penodol a elwir yn Safon Ansawdd Aer. Mae'r safon hon wedi'i gosod ar lefel yr UE a'r DU ac mae wedi'i osod ar lefel sy'n diogelu iechyd pobl.

Sut y caiff allyriadau PM2.5 eu monitro?

- 3.4. Mae paragraffau 3.4 i 3.7 isod wedi eu cymryd yn uniongyrchol o bapur a gyhoeddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Lloegr yn 2018 ac maent yn esbonio'r dulliau monitro a'r gyfundrefn bresennol, gweler Atodiad 4:-
- 3.5. *“Ar hyn o bryd nid oes offer wedi'i ddilysu ar gael yn fasnachol ar gyfer monitro allyriadau PM10 a PM2.5 o weithfeydd EfW yn barhaus. Yn lle hynny, mae'n ofynnol i weithfeydd fesur cyfanswm y deunydd gronynnol (TPM) yn barhaus. Mae TPM yn cynnwys gronynnau o bob maint gan gynnwys PM10, PM2.5, PM1*



ayb. yn ogystal â gronynnau hynod fân (h.y. gronynnau â diamedr o lai na 0.1 micromedr).

- 3.6. Mae offer ar gael i fonitro PM10 a PM2.5 yn ddi-dor h.y. trwy ddefnyddio offer monitro dros dro i samplu'r nwy llosg ac yna cyfrifo'r canlyniadau mewn labordy. Yn wir, mae'n ofynnol i'r holl weithfeydd EfW newydd gyflawni'r prawf hwn pan fyddant yn dechrau gweithredu. Fodd bynnag, mae crynodiadau PM mewn nwyon gwacáu gweithfeydd EfW modern mor isel fel ei bod yn anodd iawn cael canlyniad cywir o'r profion hyn, a bydd yn parhau felly nes y gellir datblygu, dilysu a safoni dulliau monitro a safoni newydd i'w defnyddio.
- 3.7. I grynhoi, ni ellir mesur allyriadau PM10 a PM2.5 penodol o weithfeydd EfW yn gywir drwy ddefnyddio technoleg gyfredol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn broblem mewn gwirionedd gan fod yr holl weithfeydd EfW yn mesur eu hallyriadau TPM yn barhaus, sy'n cynnwys gronynnau o bob maint. Os ydym wedyn am wybod effaith PM10 o weithfeydd EfW dan y senario gwaethaf, gallwn yn syml dybio bod yr holl TPM a fesurir yn PM10, a'r un fath ar gyfer PM2.5 ayb..”
- 3.8. I grynhoi'r gyfundrefn fonitro ac adrodd:-
- Adroddir canlyniadau monitro TPM parhaus yn fisol yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu, ac yn chwarterol ar ôl hynny, er y dylid nodi y cedwir data ½ awr, dyddiol a misol.
 - Cynhelir profion echdynnol (fel y disgrifir yn 3.6 uchod) i adrodd ar PM10 bob 6 mis yn y flwyddyn weithredol gyntaf, ac yn flynyddol ar ôl hynny.

Newidiadau i'r drefn adrodd ar gyfer monitro PM

- 3.9. Yn dilyn pryderon a godwyd gan rai grwpiau, gan gynnwys grŵp ymgyrchu 'UK Without Incineration' (UKWIN) ynglŷn ag adrodd am allyriadau PM, gwneir newidiadau i'r drefn adrodd o 2020 ymlaen (mae'r profion monitro gwirioneddol yn aros yr un fath; dim ond yr adrodd sy'n newid). Cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd (yn Lloegr) bapur yn 2018 yn rhoi cefndir i PM2.5 a'i fonitro ac yn nodi newid i'r drefn adrodd. Mae'r papur hwn ynghlwm yn Atodiad 4.
- 3.10. Y newid yw y bydd adrodd PM2.5 yn orfodol o fis Ionawr 2020 yn ogystal â'r gofynion adrodd presennol ar gyfer PM10. Fel y nodwyd yn 3.8 uchod, bydd hyn yn cael ei gynnal bob 6 mis yn y flwyddyn weithredol gyntaf, ac yn flynyddol wedi hynny.
- 3.11. Dylid nodi y bydd y Parc Adfer, yn dilyn trafodaethau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, yn gweithio o dan y drefn newydd (gan gynnwys yn ystod 2019).

Costau monitro ychwanegol

- 3.12. Tua diwedd 2018, gofynnodd y Rheolwr Contract i WTI amlinellu costau monitro ac adrodd ar PM2.5. Y costau hynny yw y byddai monitro PM2.5 pwrpasol yn costio £2,685 am 2 brawf echdynnu x 3 awr a gymerir ar un diwrnod, a fydd yn cynnwys adroddiad ar ganfyddiadau'r prawf. Dylid nodi mai hwn yw'r dull a gwybodaeth a fydd yn cael eu monitro a'u hadrodd fel rhan o'u caniatâd fel yr amlinellir yn 3.10 uchod, heb unrhyw gost ychwanegol i'r Bartneriaeth.

**NWRWTP**

North Wales Residual Waste Treatment Project

3.13. Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor ystyried a yw'n dymuno cyfarwyddo WTI i gynnal y monitro PM2.5 ychwanegol fel yr amlinellwyd yn 3.12 gan ystyried y newidiadau i'r gyfundrefn adrodd, ac y bydd y Parc Adfer yn gweithredu dan y sicrwydd ychwanegol a ddarperir gan y newidiadau hynny.

4. ARGYMHELLION

4.1. Nodi cynnwys yr adroddiad

4.2. Darparu arweiniad i dîm y prosiect ar ofynion y Bartneriaeth ar gyfer monitro allyriadau PM2.5 o'r Parc Adfer.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Amlinellir costau ariannol allyriadau aer ychwanegol yn yr adroddiad hwn.

6. EFFAITH GWRTH-DLODI

Amh.

7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL

Amh.

8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Amh.

9. GOBLYGIADAU PERSONÉL

Amh.

10. ANGEN YMGYNGHORIAD

Dim.

11. YMGYNGHORIAD WEDI EI GYNNAL

7.1. Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

DEDDF MYNEDIAD AT WYBODAETH LLYWODRAETH LEOL 1985

Dogfennau Cefndir:

Dim

Swyddog Cyswllt: Steffan Owen
Rheolwr Prosiect
Steffan.r.owen@flintshire.gov.uk

Environment Agency internal briefing note on UKWIN article July 2018

What is this briefing note about?

This briefing has been put together by the Environment Agency in response to a report published by UK Without Incineration (UKWIN) on 17 July 2018 entitled "Waste Incineration and Particulate Pollution: A failure of governance"ⁱ. This briefing is primarily intended for internal Environment Agency use, but can be shared externally if required.

This briefing addresses the various points made in the UKWIN report and provides further information about the challenges around monitoring particulates at the very low concentrations found in the exhaust gases of modern municipal solid waste (MSW) incinerators (also known as energy-from-waste or EfW plants). It also provides data on the amount of particulate matter and oxides of nitrogen (NO_x) emitted from EfW plants compared to other common sources, and how we assess the impact of an EfW plant's emissions when deciding whether to grant a permit. A list of key messages can be found at the end of the briefing.

Some explanation about different sizes of particulate matter and how it is monitored

Particulate matter (PM), also known simply as "dust", is emitted from many different sources including cars, household wood burning and agriculture. PM is classified according to size, with the smaller particles thought to be more likely to have an impact on health. PM₁₀, for example, is all particles with a diameter of 10 micrometres *or less*, and therefore includes smaller particles such as PM_{2.5} and PM₁ etc.

There is currently no validated, commercially available equipment for continuously monitoring PM₁₀ and PM_{2.5} emissions from EfW plants. Instead, plants are required to continuously measure *total* particulate matter (TPM). TPM includes particulates of *all* sizes including PM₁₀, PM_{2.5}, PM₁ etc as well as ultrafine particles (i.e. particles with a diameter of less than 0.1 micrometres).

Equipment is available to monitor PM₁₀ and PM_{2.5} *discontinuously* i.e. by using temporary monitoring equipment to sample the exhaust gas and then working out the results in a laboratory. Indeed, all new EfW plants are required to carry out this test when they first start operating. However, the concentrations of PM in the exhaust gases of modern EfW plants are so low that it is very difficult to get an accurate result from these tests, and will remain so until new monitoring methods and technology can be developed, validated and standardised for use.

In summary, specific emissions of PM₁₀ and PM_{2.5} from EfW plants can't be accurately measured using current technology. However, this isn't really a problem as all EfW plants continuously measure their TPM emissions, which includes particulates of *all* sizes. If we then want to know the impact of PM₁₀ from an EfW plant under the worst-case scenario, we can simply assume that *all* of the TPM measured is PM₁₀, and the same for PM_{2.5} and so on.

How does the Environment Agency assess impacts of EfW plants on the environment and human health?

We use a number of methods, but one of the key assessments for PM₁₀, PM_{2.5} and NO_x is to compare the modelled emissions from the EfW plant with the European air quality standards for these pollutants (also taking into account the existing levels of pollution around the plant). To do that, we assume that the plant operates at its permitted limits 100% of the time (when in reality it won't, especially for TPM where plants often operate at around 10% of their limits). For PM₁₀ and PM_{2.5} we also assume that TPM = PM₁₀ = PM_{2.5} as explained above. Making these assumptions means that we assess the worst-case scenario, which is what we then base our permitting decisions on, and we also consult Public Health England (PHE) on every application that we receive.

Do EfW plants make a big contribution to particulate matter and NO_x emissions in the UK?

The table overleaf shows estimates of the amount of pollution that was released by different example sources listed in the Government's National Atmospheric Emissions Inventoryⁱⁱ (NAEI, which is referenced in the UKWIN report). These include figures for domestic wood burning (i.e. wood fires and stoves in people's homes) and emissions from road transport including cars, buses and lorries.

The data shows that emissions from EfW plants make up just 0.03% / 0.05% of total UK PM₁₀ / PM_{2.5} emissions. This is compared to 5.35% / 4.96% from traffic and 22.4% / 34.3% from domestic wood burning. For NO_x the figures are 1.12% from EfW plants compared to 33.5% from traffic and 0.57% from domestic wood burning.

2016 NAEI category	PM ₁₀	PM _{2.5}	NO _x
MSW incineration	0.057 kt = 0.03%	0.057 kt = 0.05%	9.97 kt = 1.12%
Domestic wood burning	38 kt = 22.4%	37 kt = 34.3%	5.1 kt = 0.57%
Cars, buses, lorries	9.1 kt = 5.35%	5.36 kt = 4.96%	298.9 kt = 33.5%
Total UK emissions	170 kt	108 kt	893 kt

(Source: <http://naei.beis.gov.uk>; kt = kilotonne i.e. 1000 tonnes)

It is also important to understand that the overall impact of an EfW plant’s emissions on human health for a given amount of PM or NO_x released will be lower than if that same amount was emitted by a car or a domestic wood fire. This is because EfW plants have tall stacks (chimneys) which help to disperse their emissions, whereas a car exhaust pipe or a chimney on a house releases its emissions much closer to ground level.

Are emissions from EfW plants causing significant health effects in England?

We consult Public Health England (PHE) on every EfW plant application that we receive and we will not issue a permit if its emissions will cause significant pollution or harm to human health. PHE has also published the following position statement on the health impact of waste incineration: “Modern, well managed incinerators make only a small contribution to local concentrations of air pollutants. It is possible that such small additions could have an impact on health but such effects, if they exist, are likely to be very small and not detectable.” The study of all 22 British EfW plants in operation 2003–10ⁱⁱⁱ indicates very low concentrations of incinerator-related PM₁₀ within 10 km of the plants at postcode level.

What is the Environment Agency’s response to the points covered in the UKWIN report?

The following table provides a summary of our responses to the main points covered in the UKWIN report and should be read together with the information above.

Claim made or policy called for	Environment Agency response
The public have been “kept in the dark about PM ₁₀ and PM _{2.5} emissions” as there is no equipment available for their continuous monitoring.	The fact that PM ₁₀ and PM _{2.5} emissions cannot be continuously monitored does not mean that they cannot be estimated and the estimates made publically available. Indeed, this is what the NAEI does, with data available to the public going back to 1970. The 2016 data for example shows that EfW plants emitted an estimated 57 tonnes of both PM ₁₀ and PM _{2.5} , representing 0.03% and 0.05% of total UK emissions respectively. In comparison, the NAEI estimates that domestic wood burning accounted for 22% and 34% of total UK PM ₁₀ and PM _{2.5} emissions respectively.
There is a “TPM fiddle” which prevents the public from being told about TPM emissions from incinerators.	All EfW plants must continuously monitor and report TPM emissions on a quarterly basis. The results of this monitoring are placed on the public register and show that many EfW plants operate at around 10% of their emission limit for TPM.
There is a “no equipment fiddle” which allows operators to say they can’t measure PM ₁₀ and PM _{2.5} when in actual fact they can measure them “by proxy”.	The method used by the NAEI is not a form of <i>measurement</i> but rather it is a conservative <i>estimate</i> of the PM ₁₀ and PM _{2.5} emissions which relies on the simple assumption that TPM = PM ₁₀ = PM _{2.5} .
Incinerator operators have been ignoring Environment Agency guidance on reporting PM ₁₀ and PM _{2.5} ; PM ₁₀ and PM _{2.5} reporting should be made mandatory and guidance should be strengthened and enforced.	As explained above, EfW operators cannot specifically measure their PM ₁₀ and PM _{2.5} emissions in an accurate way. As the UKWIN report highlights, our Pollution Inventory (PI) guidance suggests that emission factors can be used. However, these emission factors are from 2000 (when not all EfW plants were required to be fitted with bag filters) which may help explain the difference between the UKWIN figures (226.1 tonnes for England in 2017) and the NAEI data (57 tonnes for the whole of the UK in 2016). We are in the process of updating our guidance to make it clear that PM ₁₀ and PM _{2.5} emissions must be reported on the PI, as well as providing an updated method to enable operators to estimate them.
A limit value should be placed on PM ₁ emissions from incinerators if possible.	A limit on PM ₁ emissions is arguably not necessary as PM ₁ will be included in TPM emissions, and in any case, PM ₁ emissions will be taken into account when assessing an EfW plant’s emissions against the air quality standards for PM ₁₀ and PM _{2.5} (which will both include PM ₁ and ultrafines as explained above).
An incineration tax should be introduced under the “polluter pays” principle and there should be a moratorium on new incinerators until this and the other policies mentioned are in place.	Whether waste incineration should be taxed or a moratorium put in place are decisions for the Government and not the Environment Agency. We will continue to consider permit applications for new EfW plants in the same way i.e. by assessing the impacts of particulates and other pollutants on the environment and human health.

Summary/key messages for a non-technical audience

- The UKWIN article is about municipal solid waste (MSW) incinerators, also known as energy-from-waste or EfW plants.
- The article talks mainly about emissions of particulate matter (PM), which is also known simply as “dust”. PM is emitted from many different sources including cars, household wood burning and agriculture.
- PM can be classed by size e.g. PM₁₀ refers to all particles with a diameter of 10 micrometres (µm) **and smaller**, and PM_{2.5} means those with diameter of 2.5 µm **and smaller**. This means that PM₁ and “ultrafine particles” (with a diameter of less than 0.1 µm) are included in PM₁₀ and PM_{2.5} measurements.
- Emissions of PM₁₀ and PM_{2.5} from modern EfW plants are so low that they cannot be accurately specifically measured using currently available technology. However, this isn’t a problem as all EfW plants continuously monitor emissions of total PM (TPM) which includes particles of **all** sizes including PM₁₀, PM_{2.5}, PM₁ and ultrafine particles.
- EfW plant operators report their continuous monitoring results (including TPM) to the Environment Agency (EA) every 3 months and these are all placed on the public register^{iv}.
- EfW plants also submit annual reports of their emissions to the EA’s Pollution Inventory (PI). The UKWIN article is critical of the fact that EfW plants do not always provide estimates of their PM₁₀ and PM_{2.5} emissions to the PI. Because of this, the EA is going to update its guidance to make it clear that estimates for these pollutants need to be submitted in the future.
- When the EA assesses applications for new EfW permits, they compare the maximum emissions from the plant against European air quality standards. For PM₁₀ and PM_{2.5} this means making a worst-case assumption that all of the EfW plant’s emissions will be either PM₁₀ or PM_{2.5}. The EA will not issue a permit for an EfW plant if its emissions will cause significant pollution or harm to human health, and it consults Public Health England (PHE) on every application it receives.
- PHE’s position is that well run and regulated modern Municipal Waste Incinerators are not a significant risk to public health. This view is based on detailed assessments of the effects of air pollutants on health and on the fact that modern and well managed Municipal Waste Incinerators make only a very small contribution to local concentrations of air pollutants.
- For more information on PHE’s position, see:
<https://www.gov.uk/government/publications/municipal-waste-incinerator-emissions-to-air-impact-on-health>
- EfW plants are an extremely small source of PM in the UK, giving rise to just 0.03% / 0.05% of total UK PM₁₀ / PM_{2.5} emissions in 2016 according to government estimates. This compares to 5.35% / 4.96% from traffic and 22.4% / 34.3% from wood fires and stoves in people’s houses.
- The other pollutant mentioned in the UKWIN article is oxides of nitrogen (NO_x). EfW plants are also a relatively small source of NO_x in the UK, giving rise to 1.12% of emissions in 2016 compared to 33.5% from traffic and 0.57% from domestic wood burning according to government estimates.

ⁱ http://ukwin.org.uk/btb/Particulate_Pollution_July_2018.pdf

ⁱⁱ <http://naei.beis.gov.uk/data/>

ⁱⁱⁱ <https://pubs.acs.org/doi/pdf/10.1021/acs.est.6b06478>

^{iv} <https://environment.data.gov.uk/public-register/view/index>

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol